*Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*
Department for Health and Social Services
*Prif Swyddog Nyrsio – Cyfarwyddwr Nyrs GIG Cymru*
*Chief Nursing Officer – Nurse Director NHS Wales*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/VG/1623/17

Nick Ramsay, AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

6 Gorffennaf 2017

Annwyl Mr Ramsay

**LLYTHYR: ARGYMHELLION ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS AR ARLWYO A MAETH CLEIFION**
**MEHEFIN 2017**

Diolch am eich gohebiaeth, dyddiedig 8 Mehefin 2017.

O ran eich pwyntiau penodol:

*Argymhelliad 1: Nid yw'n glir a yw'r eitem agenda sefydlog, am adborth gan gleifion ar brydau yn berthnasol i'r Grŵp Gwerthuso a Monitro Strategol Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan neu i'r cyfarfod blynyddol ar y cyd gyda'r Grŵp Arlwyo a Maeth.*

Bydd adborth cleifion ar brydau yn eitem sefydlog ar agenda'r cyfarfod ar y cyd rhwng Grŵp Gwerthuso a Monitro Strategol Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan a Grŵp Arlwyo a Maeth Cymru Gyfan. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod croesgyfeirio rhwng y gwaith ar fwydlenni a'r gwaith ar faeth ac arlwyo.

*Argymhelliad 4: A gynhaliwyd y digwyddiad i randdeiliaid a drefnwyd ar gyfer 19 Mai 2017, ac os felly, beth oedd ei ddiben?*

Cynhaliwyd y digwyddiad i randdeiliaid ar 19 Mai ac roedd cynrychiolwyr o holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yn bresennol. Y diben oedd rhannu â'r mynychwyr y cynllun gwaith ar gyfer y rhaglen e-ddogfennu nyrsio ac i ddeall gofynion technegol y llif o ddogfennaeth a gwybodaeth nyrsio, ar sail adborth a gafwyd gan ystod eang o ddefnyddwyr nyrsio.

*Argymhelliad 5: Rydym yn cydnabod y fenter 'WIDI' ond yn pryderu nad yw eich ymateb yn mynd i'r afael â phwynt arwyddocaol ein hargymhelliad mewn perthynas ag adolygu trefniadau cynllunio gweithlu o fewn Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.*


Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn ● Tel: 03000 25 3469
Jean.white@wales.gsi.gov.uk
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk


Er nad yw Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'i holl drefniadau cynllunio gweithlu, mae wedi sefydlu amserlenni cynllunio a recriwtio estynedig er mwyn llenwi swyddi technegol. Mae'r gystadleuaeth am staff technegol yn uchel ar draws sectorau, felly mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda sefydliadau'r GIG i ddynodi'n gynnar pa fathau o swyddi technegol sydd eu hangen at y dyfodol. Er enghraifft, yn ddiweddar mae'r Gwasanaeth wedi gweithio gyda byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG i ddynodi ac i recriwtio ar gyfer swydd pensaer technegol newydd i'r rhaglen e-ddogfennu, gan roi blaenoriaeth i ddogfennaeth nyrsio.

*Argymhelliad 6: Rydym yn croesawu'r bwriad i weithio gyda byrddau iechyd i archwilio hyfforddiant gorfodol ar gyfer maeth, ond yn awyddus i weld amserlenni ar gyfer cyflawni a gorffen y gwaith hwn.*
Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn y flwyddyn 2017/23018 ac felly'r dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r gwaith yw Mawrth 2018.

*Argymhelliad 9, rydym yn pryderu nad oes llawer, os o gwbl, o gynnydd wedi'i wneud ac yn gofyn i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i'r mater hwn.*

Mae mater hwn yn cael blaenoriaeth a bydd adroddiad ar gynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus erbyn 30 Medi 2017.

Yn gywir



Yr Athro Jean White
Prif Swyddog Nyrsio
Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel : 029 2082 3469
Ffacs/Fax: 029 2082 5116
Jean.white@wales.gsi.gov.uk
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk